

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	3 Mawrth 2022
Pwnc:	Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2022/2023
Aelod(au)Portffolio:	Cynghorydd Llinos Medi Huws
Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:	Arwel Wyn Owen
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid 01248 752699 CarwynEdwards@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Pob Aelod

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

O'r 6ed o Ebrill 2016, mae'r fframwaith ar gyfer asesiad ariannol a chodi tâl bellach o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol i gyd-fynd a newidiadau'r Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Drwy osod lefelau'r ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, mae angen i ni ddangos ein bod wedi ystyried yn llawn costau'r ddarpariaeth wrth bennu ein ffioedd gofal safonol. Caiff hyn ei wneud ar y cyd ac Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Rhanbarthol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd a fu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2022/23 sydd wedi adlewyrchu newidiadau yn y ddeddfwriaeth o ran y Cyflog Byw Gwirioneddol a chwyddiant.

Mae Methodoleg Gogledd Cymru (Atodiad 1) wedi argymell cynnydd rhwng 6.73% a 7.37% ar draws y pedwar categori gofal. Cynigir y ffioedd canlynol ar gyfer 2022/23:-

Tabl 1 – Argymhelliad Methodoleg Gogledd Cymru

Categori	2021/22	2022/23	Cynnydd £	Cynnydd %
Preswyl (Oedolion)	£605.73	£646.52	£40.79	6.73%
Preswyl (EMI)	£631.40	£675.17	£43.77	6.93%
Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£657.04	£703.79	£46.75	7.12%
Gofal Nyrsio (EMI) (Elfen Gofal Cymdeithasol)	£695.49	£746.72	£51.23	7.37%

Mae'r uchod i gyd yn seiliedig ar Elw ar Fuddsoddiad (ROI) o 10% ar gyfer 2021/22 a 2022/23, ac eithrio'r elfen Gofal Nyrsio am Ddim yr Awdurdod Lleol (FNC) ar ffioedd nyrsio am fod % y cynnydd heb ei gytuno eto.

Fel rhan o osod y ffioedd ar gyfer 2022/23, ymgynghorodd Ynys Môn ar fethodoleg ffioedd Gogledd Cymru.

Mae Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (NASH) wedi cytuno bod y codiadau a nodwyd yn gyson â gweithrediad y model ffioedd.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, rydym yn cynnig defnyddio'r fethodoleg Ranbarthol ar gyfer:-

- Gofal Preswyl;
- Eifen Gofal Cymdeithasol Gofal Nyrsio.

Mae'r Gwasanaeth yn argymhell y dylid cynyddu'r ffioedd ar gyfer Gofal Preswyl Pobl Hŷn bregus eu meddwl (EMI) a Nyrsio EMI 12%, gan fod hwn wedi'i nodi fel maes ble mae galw mawr a dymunwn annog darpariaeth bellach. Mae'r gwasanaeth yn argymhell bod y ROI ar gyfer lleoliadau EMI Nyrsio yn aros ar 12%, tra bod y ROI ar gyfer EMI Preswyl yn aros ar 10%, mae hyn yn cydnabod y pwysau yn y maes hwn.

Yn gyson gyda'r cyfeiriad strategol mae'r Cyngor yn ei gymryd wrth ddatblygu opsiynau amgen i ofal preswyl ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofal yn y cartref, a gan roi ystyriaeth ddyledus i fforddiadwyedd y cynnydd arfaethedig ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl, rydym yn cynnig cadw adenillion buddsoddiad is o 9%, fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae Ynys Môn felly yn argymhell y cyfraddau canlynol i'w cymeradwyo:-

Tabl 2 – Ffioedd Arfaethedig Ynys Môn ar gyfer 2022/23

Categori	2021/22	2022/23	Cynnydd £	Cynnydd %	ROI
Preswyl (Oedolion)	£596.01	£636.80	£40.79	6.84%	9%
Preswyl (EMI)	£631.40	£707.17	£75.77	12.00%	10%
Gofal Nyrsio (Eifen Gofal Gymdeithasol)	£657.04	£703.79	£45.75	7.12%	10%
Nyrsio (EMI) (Eifen Gofal Cymdeithasol)	£715.07	£800.88	£85.81	12.00%	12%

Nid yw'r ffioedd uchod yn cynnwys elfen Gofal Nyrsio am Ddim yr Awdurdod Lleol (FNC) ar ffioedd nyrsio am fod % y cynnydd heb ei gytuno eto.

Efallai y bydd angen ystyried ceisiadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd hyn. Os bydd tystiolaeth glir i ddangos nad yw'r ffi a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd angen i'r Cyngor ystyried eithriadau i'r cyfraddau ffioedd. Cynigir bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Phennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:-

1. Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru, fel y'i gweithredwyd hyd yn hyn gan Awdurdodau Gogledd Cymru, fel sail i osod ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2022/23 (Atodiad 1):-
2. Cymeradwyo'r argymhelliad i godi lefel y ffioedd fel a ganlyn:-
 - A1 - Gofal Preswyl (Oedolion) - £636.80
 - A2 - Preswyl (EMI) - £707.17
 - A3 - Gofal Nyrsio (Eifen Gofal Cymdeithasol) - £703.79 + elfen FNC Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)
 - A4 - Nyrsio (EMI) (Eifen Gofal Cymdeithasol) - £800.88 + elfen FNC Awdurdod Lleol (i'w gadarnhau)

Yn unol ag Awdurdodau eraill, awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i archwilio eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Unrhyw eithriadau i'w cytuno gyda'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Oedolion o'r cyllidebau presennol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?

Penderfynwyd mabwysiadu ROI wedi'i ddiwygio ar gyfer 2 gategori, yn seiliedig ar y rhesymau a nodir yn yr adroddiad. Ymhellach, oherwydd natur y galw am welyau EMI ar yr Ynys, mae'r gwasanaeth yn argymhell cynyddu'r ffioedd EMI 12%, gan gynnal ROI o 10% ar gyfer ffioedd Preswyl EMI a ROI 12% ar gyfer ffioedd Nyrsio EMI.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae angen i Awdurdodau Lleol bennu lefelau ffioedd cartrefi gofal yn unol â'r polisi cenedlaethol. Mae gan y penderfyniad hwn oblygiadau ariannol i gyllideb yr Awdurdod Lleol ac o ran fforddiadwyedd yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Mae'r penderfyniad hwn yn unol â'r gymeradwyaeth i weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru ac i weithredu Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru i osod ffioedd yn flynyddol.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Mae'r gost ychwanegol o gyllido'r ffioedd uchod wedi'i chynnwys ym mhroses gosod cyllideb yr Awdurdod. Disgwylir i'r cynnydd mewn ffioedd gynyddu'r costau blynyddol tua £890k o'i gymharu â ffioedd 2021/22 a nifer y cleientiaid.

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Bwriad hyn yw cefnogi ac annog darpariaeth newydd mewn ardaloedd ble mae twf.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Amherthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy	Rydym wedi trafod y cynigion gyda sefydliadau eraill yng Ngogledd Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwrch sut.	Dim ymgysylltu â dinasyddion ond rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau rheolaidd â darparwyr.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Bwriad hyn yw cefnogi unigolion a warchodir gan y Ddeddf.

6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	Amherthnasol
5	Eiddo	Amherthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Amherthnasol
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	Amherthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Amherthnasol
F - Atodiadau:		
Dim		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		

Atodiad 1

Cyfrifiadau Ffi Drafft 2022/23 (Cyflog Byw Gwirioneddol/ Oriau Gofal Heb eu Newid			
	Ffi 2021/22	Ffi Dangosol 2022/23	Sail i'r Cyfrifiad
1. COSTAU ANUNIONGYRCHOL -Safonol ar gyfer pob categori gofal			
Cyfleustodau (trydan, nwy, teledu, Dreth Gyngor, Dŵr, Ffôn)	£30.95	£31.91	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Cofrestru (Aelodaeth Broffesiynol, DBS ac ati)	£1.36	£1.40	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Recriwtio	£2.62	£2.70	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Cynnal a chadw offer dan contract	£3.80	£3.92	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Cynnal a chadw offer cyfalaf	£23.39	£24.12	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Garddwr / tasgmon	£11.05	£11.78	Cyflog Byw Cenedlaethol 6.6% o gynnydd ar gyfradd 2021/22
Hyfforddiant	£2.61	£2.69	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Cyflenwadau meddygol dibresgripsiwn	£3.95	£4.07	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Yswyriant	£6.59	£7.25	Cynnydd o 10%
Bwydydd a Nwyddau i'r cartref	£30.44	£31.38	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Is-gyfanswm Costau Anuniongyrchol	£116.76	£121.22	
2. COSTAU ERAILL - Safonol ar gyfer pob categori gofal			
Elw ar Fuddsoddiad (EAF)	£97.16	£97.16	10% EAF
Treuliau Ychwanegol (heb eu cynnwys yn unman arall)	£19.20	£19.80	Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) 3.1% (Medi 2021)
Is-gyfanswm Costau Eraill	£116.36	£116.96	
3. COSTAU STAFFIO			
Cartrefi Preswyl			
Rheolaeth/ Gweinyddol	£51.85	£52.89	Cynnydd o 2% (amcangyfrif o ddyfarniad cyflog llywodraeth leol)
Uwch Ofalwyr	£136.70	£152.40	10 awr x £15.24
Staff Gofal	£119.10	£133.20	10 awr x £13.32
Asiantaeth (5% o oriau - cyfradd fesul awr + 40%)	£13.38	£14.87	1 awr x £14.87 (cyfartaledd o (£9.90 + £10.34) +40%)
Staff Domestig	£51.58	£54.98	Cyflog Byw Cenedlaethol 6.6% o gynnydd ar gyfradd 2021/22
Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Preswyl	£372.61	£408.34	
CYFANSWM PRESWYL	£605.73	£646.52	
Cartrefi Preswyl EMI			
Rheolaeth/ Gweinyddol	£51.85	£52.89	Cynnydd o 2% (amcangyfrif o ddyfarniad cyflog llywodraeth leol)
Uwch Ofalwyr	£149.34	£166.50	10.925 awr x £15.24
Staff Gofal	£130.12	£145.52	10.925 awr x £13.32
Asiantaeth (5% o oriau - cyfradd fesul awr + 40%)	£15.39	£17.10	1.15 awr x £14.87 (cyfartaledd o (£9.90 + £11.34) +40%)
Staff Domestig	£51.58	£54.98	Cyflog Byw Cenedlaethol 6.6% o gynnydd ar gyfradd 2021/22
Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Preswyl EMI	£398.28	£436.99	
CYFANSWM PRESWYL EMI	£631.40	£675.17	
Cartrefi Nyrsio			
Rheolaeth/ Gweinyddol	£51.85	£52.89	Cynnydd o 2% (amcangyfrif o ddyfarniad cyflog llywodraeth leol)
Uwch Ofalwyr	£162.33	£180.98	11.875 awr x £15.24
Staff Gofal	£141.43	£158.17	11.875 awr x £13.32
Asiantaeth (5% o oriau - cyfradd fesul awr + 40%)	£16.73	£18.59	1.25 awr x £14.87 (cyfartaledd o (£9.90 + £11.34) +40%)
Staff Domestig	£51.58	£54.98	Cyflog Byw Cenedlaethol 6.6% o gynnydd ar gyfradd 2021/22
Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Nyrsio	£423.92	£465.61	
CYFANSWM NYRSIO	£657.04	£703.79	
Cartrefi Nyrsio EMI			
Rheolaeth/ Gweinyddol	£51.85	£52.89	Cynnydd o 2% (amcangyfrif o ddyfarniad cyflog llywodraeth leol)
Uwch Ofalwyr	£181.81	£202.69	13.3 awr x £15.24
Staff Gofal	£158.40	£177.16	13.3 awr x £13.32
Asiantaeth (5% o oriau - cyfradd fesul awr + 40%)	£18.73	£20.82	1.4 awr x £14.87 (cyfartaledd o (£9.90 + £11.34) +40%)
Staff Domestig	£51.58	£54.98	Cyflog Byw Cenedlaethol 6.6% o gynnydd ar gyfradd 2021/22
Is-gyfanswm Costau Staff Cartrefi Nyrsio EMI	£462.37	£508.54	
CYFANSWM NYRSIO EMI	£695.49	£746.72	